
CYMRU WALES

# Cronfa Ffilmiau Byrion Beacons

2025





Hawdd Ei Deall


# Hawdd ei Deall



Dyma fersiwn Hawdd ei Deall o wybodaeth anodd. Efallai na fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth ond bydd yn sôn am y rhannau pwysig.




Mae'r wybodaeth Hawdd ei Deall yma yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Efallai y byddwch yn dal i fod eisiau help i'w darllen.




Mae rhai geiriau mewn print **trwm** – mae hyn yn golygu bod yr ysgrifen yn fwy trwchus a thywyll.



Mae'r rhain yn eiriau y bydd rhai pobl yn eu gweld yn anodd. Pan welwch air mewn print trwm, byddwn yn ei egluro yn y frawddeg nesaf.




Mae geiriau glas wedi’u tanlinellu yn dangos dolenni i wefannau a chyfeiriadau e-bost. Gallwch chi glicio ar y dolenni hyn ar gyfrifiadur.

# Beth sydd yn y llyfryn yma

Ynglŷn â'r llyfryn yma....................................................4

Ffilm Cymru....................................................5

Cronfa Ffilmiau Byrion Beacons....................................................6

Cael help gan y gronfa....................................................7

Gwneud cais....................................................13

Beth fydd yn digwydd nesaf?....................................................21

Os cewch chi eich dewis....................................................25

Pryd fydd pethau'n digwydd....................................................26


Mwy o wybodaeth....................................................28

# Ynglŷn â'r llyfryn yma




Daw'r wybodaeth hon gan Ffilm Cymru Wales.

Mae'n sôn wrthych chi am Gronfa Ffilmiau Byrion Beacons.





Bydd yn dweud wrthych chi:

- Beth yw’r gronfa.



- Ar gyfer pwy mae hi.




- Pa fath o ffilmiau y gall helpu.




- Sut i gael help gan y gronfa.


# Ffilm Cymru



Mae Ffilm Cymru yn helpu pobl Cymru i greu ffilmiau.



Rydyn ni’n helpu drwy roi arian a chymorth arall i'r ffilmiau.





Rydyn ni eisiau helpu ffilmiau sydd:

- Yn rhoi cynnig ar syniadau newydd.



- Yn cynnwys pobl nad ydyn nhw fel arfer yn cael cyfle i greu ffilm.

# Cronfa Ffilmiau Byrion Beacons




Gyda Chronfa Ffilmiau Byrion Beacons, byddwn yn helpu 8 syniad am ffilm.




Rydyn ni eisiau rhoi arian tuag at 4 o'r ffilmiau hyn.



Byddwn yn rhoi rhwng £5,000 a £25,000 i'r ffilmiau.



Byddwn yn helpu i'ch hyfforddi fel eich bod yn gwybod mwy am greu ffilmiau.



Bydd rhywun sydd wedi creu llawer o ffilmiau yn gweithio gyda chi i'ch helpu i wneud eich ffilm chi.

# Cael help gan y gronfa




Os ydych chi eisiau help gan y gronfa, mae'n rhaid i chi anfon **cais** i ni.





Mae **cais** yn golygu pan fyddwch yn:

- Gofyn i ni am help gan y gronfa




- Dweud wrthym ni pam mae angen help arnoch chi.




Mae'n rhaid i ni gael eich cais erbyn 3pm ar ddydd Gwener 27 Mehefin 2025.

# Pwy all anfon cais?

Gallwch anfon cais i ni:



- Os ydych chi wedi eich geni yng Nghymru neu'n byw yng Nghymru.



- Os ydych chi wedi gwneud ffilmiau neu weithiau celf eraill o’r blaen, fel gwaith i deledu neu’r theatr.




- Os ydych chi dros 18 oed a heb fod mewn coleg na phrifysgol.




Gall cwmnïau sy'n creu ffilmiau wneud cais hefyd.

# Pa fath o ffilmiau?

Gallai eich ffilm fod yn:




- Ffilm gyda stori ddychmygol ac actorion.



- Ffilm am le go iawn neu bobl go iawn.




- Cartŵn.



- Ffilm sy'n defnyddio stop symudiad. Mae hyn yn golygu llawer o ffotograffau o bethau llonydd sy'n cael eu rhoi at ei gilydd i wneud iddo edrych fel bod y pethau’n symud.




Gallai eich ffilm hefyd fod yn gymysgedd o wahanol fathau o ffilm.




Dylech fod yn meddwl am eich ffilm o hyd. Ni ddylech fod wedi dechrau ei ffilmio.




Dylech fod yn gallu creu eich ffilm am £25,000 ar y mwyaf.



Gallwch gael mwy o arian o leoedd eraill i greu eich ffilm – ond mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am hyn.



Dylai eich ffilm fod yn 15 munud o hyd ar y mwyaf.



Dylech wneud yn siŵr eich bod yn cael creu’r ffilm gan ddefnyddio'r stori rydych chi am ei defnyddio.

Rydyn ni eisiau helpu:



- Pobl sy'n dechrau ar greu ffilmiau.



- Pobl sydd fel arfer ddim yn cael cyfle i greu ffilm.




- Pobl sy'n ceisio creu ffilm anarferol.



- Ffilmiau sy'n dangos bywyd yng Nghymru mewn ffordd newydd.

# Y ffilmiau na allwn ni eu helpu




Ni allwn helpu ffilmiau o:

- Sioe theatr.



- Dawns.




- Barddoniaeth.



- Digwyddiad chwaraeon.



- Digwyddiad cerddoriaeth.



Ni allwn helpu ffilmiau sy'n cael eu creu ar gyfer y teledu.

# Gwneud cais

## Help i wneud eich cais



Os oes angen help arnoch i wneud eich cais, cysylltwch â:



- e-bost: network@ffilmcymruwales.com




Gallwch hefyd ffonio: 02922 676711

# Beth ddylai fod yn eich cais?



Mae angen i chi gynnwys:

- Eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.



- Gwybodaeth am y ffilm rydych chi am ei chreu.



- Gwybodaeth am unrhyw arian arall rydych chi'n ei dderbyn i greu eich ffilm.



- Gwybodaeth am y bobl sy'n mynd i greu'r ffilm.



- Gwybodaeth gan y person sy'n gyfrifol am greu'r ffilm.




- Cynllun Cynaliadwyedd - gwelwch isod.




- Cyllideb - gwelwch isod.

# Cynllun Cynaliadwyedd



Mae **cynaliadwyedd** yn golygu:

- Mae'n rhaid i'ch ffilm fod yn dda i'r blaned.



- Mae'n rhaid i'ch ffilm fod yn dda i bobl yng Nghymru.

Mae'n rhaid i chi ysgrifennu cynllun yn esbonio sut y bydd eich ffilm yn:




- Peidio â niweidio'r blaned.



- Cynnwys pobl o bob cefndir gwahanol a phobl nad ydyn nhw fel arfer yn cael cyfle i greu ffilm.



- Helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd.



- Dod o hyd i ffyrdd newydd i gynnwys pobl.

# Cyllideb




**Cyllideb** yw lle rydych chi'n esbonio sut rydych chi eisiau gwario'r arian.




Dylech ddweud wrthym ni am gostau:


- Y person sy'n ysgrifennu'r ffilm.




- Y bobl sy'n gyfrifol am greu'r ffilm.



- Y bobl sy'n helpu i greu'r ffilm.



- Teithio ac aros dros nos.



● Edrych i weld sut y gall y ffilm gael ei chreu.



● Edrych i weld ble y gall y ffilm gael ei ffilmio.



Dylech chi ddweud wrthym ni os oes rhaid i chi dalu am ganiatâd i ddefnyddio'r stori.

Dylech ddweud wrthym ni:



● Beth yw cost holl gyflogau'r bobl sy'n creu’r ffilm.



● Beth yw cost cael eich ffilm yn barod i’w dangos i bobl.



- Os oes angen unrhyw beth ychwanegol ar unrhyw un i'w helpu i gymryd rhan wrth greu'r ffilm.



Mae'n rhaid i chi roi rhywfaint o arian tuag at atal **newid hinsawdd**.




Mae **newid hinsawdd** yn golygu newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, stormydd yn mynd yn waeth nag oedden nhw. Neu lai o law yn disgyn mewn rhai lleoedd.

# Pethau rydych chi'n gadael i ni eu gweld

Dylech chi roi dolen i ni i'r wybodaeth hon:



- Cynllun y ffilm, sy'n dweud wrthym ni beth sy'n digwydd.



- Ffilmiau neu weithiau celf eraill rydych chi wedi'u gwneud o'r blaen.




- Unrhyw gytundebau sy'n profi eich bod yn cael defnyddio'r stori neu’r gerddoriaeth ar gyfer y ffilm.




- **CV**:

  - Yr un a ysgrifennodd y cynllun.




  - Y bobl sy'n gyfrifol am greu’r ffilm.




**CV** yw lle rydych chi'n ysgrifennu gwybodaeth amdanoch chi eich hun a'r hyn rydych chi wedi'i wneud yn eich bywyd. Mae angen CV arnoch chi pan fyddwch chi’n gwneud cais am swydd.

# Beth fydd yn digwydd nesaf?



Ar ôl derbyn eich cais byddwn ni yn:

- Anfon e-bost i chi sy'n dweud ein bod ni wedi derbyn eich cais.



- Gofyn cwestiynau i chi am gefndir y bobl sy’n ymwneud â’r ffilm.




Rydyn ni’n gwneud hyn i wneud yn siŵr ein bod ni’n cynnwys pobl o bob math o gefndiroedd.




- Gwneud yn siŵr bod hawl gennych chi gael arian o'r gronfa hon.

Bydd 2 o'n staff yn darllen eich cais i weld:





- A yw eich syniadau ar gyfer y ffilm yn newydd.



- A yw eich ffilm chi y math o ffilm rydyn ni eisiau ei helpu.



- A fydd eich ffilm yn helpu'r bobl sy'n creu'r ffilm.



- A fyddwch chi'n gallu creu'r ffilm yn yr amser a gyda'r arian sydd gennych chi.




- A allech chi gael arian o rywle arall ar gyfer eich ffilm.

# Allwn ni ddim helpu pawb



Fel arfer, rydyn ni’n derbyn llawer o geisiadau. Allwn ni ddim rhoi arian i bob un.



Byddwn yn rhoi ychydig o wybodaeth yn dweud wrth bobl pam na allwn ni roi arian i'w ffilmiau.

# Gwneud cais eto



Os ydyn ni eisoes wedi dweud na fyddwn ni’n rhoi arian i chi ar gyfer eich ffilm, rhaid i chi wirio gyda ni cyn gofyn i ni eto.

# Y cyfweliad



Byddwn yn gofyn i rhwng 15 ac 20 o bobl ddod i gyfweliad.





Byddwn yn gofyn cwestiynau i chi am eich ffilm.



Ar ôl y cyfweliadau hyn, byddwn yn dewis 8 syniad am ffilmiau ac yn rhoi arian a help iddyn nhw.

# Os cewch chi eich dewis




Os cewch chi eich dewis, byddwch chi'n:

- Llofnodi cytundeb gyda ni.



- Cael ychydig o sylwadau gennym ni am eich prosiect.




- Llofnodi cytundeb gyda Ffilm Cymru i ddechrau ffilmio eich ffilm.

# Pryd fydd pethau'n digwydd




Mae'n rhaid i chi anfon eich cais i ni erbyn 12pm ddydd Gwener 27 Mehefin 2025.




Byddwn ni’n dweud wrthych chi os ydyn ni eisiau i chi ddod i gyfweliad erbyn 29 Awst 2025.




Bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar ddydd Llun 8 Medi 2025.




Byddwch chi’n gweithio ar eich syniadau ar gyfer y ffilm o fis Hydref i fis Rhagfyr 2025.




Dylai'r ffilmio gael ei wneud yn 2026.




Dylech fod wedi gorffen eich ffilm erbyn mis Ionawr 2027.

# Mwy o wybodaeth





Gallwch edrych ar ein gwefan fan yma:
[www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)





Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â ni:

- Post:
  Ffilm Cymru Wales
  W2, Wellington House
  Wellington Street
  Cardiff
  CF11 9BE



- Ffôn: 02922 676711




- E-bost:
  [network@ffilmcymruwales.com](mailto:network@ffilmcymruwales.com)

Mae'r wybodaeth Hawdd ei Deall yma wedi'i chynhyrchu gan [easy-read-online.co.uk](http://easy-read-online.co.uk)